PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD IAU, 18 GORFFENNAF 2024

PRESENNOL Cynghorydd A.C. Jones (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

S.M. Allen	J.M. Charles	B.D.J. Phillips	E. Skinner
R. Sparks	G.B. Thomas	M. Thomas	

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

T. Davies	M. Donoghue	J.K. Howell	J.D. James
M.J.A. Lewis	D.E. Williams	S. Williams	

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
H. Towns, Uwch Reolwr Datblygu a Gorfodi
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth)
S. Martin, Solicitor
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
R. Morris, Swyddog Cefnogi Aelodau
Z.A. Evans, Peirianydd Cynorthwyol (Cyswllt Cynllunio)

Siambr, Neuadd Y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP - 10.00 - 11.20 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P. Cooper, W.T. Evans ac A. Leyshon.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant personol.

3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

PL/06172	**Estyniad yn y cefn i'r uned ddiwydiannol bresennol yn Unedau 8 a 9, Stad Ddiwydiannol Hendy, Yr Hendy, Abertawe, SA4 0XP**
PL/07356	**Un byngalo ar dir y tu cefn i 22 Stryd y Bont, Penygroes, SA14 7RP**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

PL/07642	**Parcio ychwanegol arfaethedig ar dir oddi ar Ffordd y Rhyd, Parc Amanwy, Rhydaman, SA18 3EZ**

4. ADRODDIADAU APELIADAU

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Adroddiad Apeliadau Cynllunio a oedd yn darparu gwybodaeth yn ymwneud ag apeliadau cynllunio a gyflwynwyd ar 8 Gorffennaf, 2024.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r adroddiad.

5. PERFFORMIAD Y GWASANAETH CYNLLUNIO - CHWARTER 1

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiad Perfformiad y Gwasanaeth Cynllunio ar gyfer Chwarter 1 am y cyfnod Ebrill i Fehefin 2024 ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio, ac, yn arbennig, yr Is-adran Rheoli Datblygu a Gorfodi. Roedd yr adroddiad yn cynnwys dangosyddion monitro perfformiad craidd ynghyd â data cymharol ar gyfer data chwarterol a chronnol ar gyfer 2023/24.

Roedd yr adroddiad yn nodi set o ddangosyddion monitro perfformiad craidd a fyddai'n rhan o fonitro perfformiad y gwasanaethau cynllunio yn y dyfodol. Roedd y rhain yn cynnwys "Dangosyddion Cenedlaethol" a'r rhai a nodwyd gan y Cyngor.

Gwnaed cyfeiriadau at y broses orfodi, a gwnaed awgrym y gallai fod o fudd i aelodau'r Pwyllgor dderbyn hyfforddiant ar hynny. Atgoffwyd y Pwyllgor gan yr Uwch-reolwr Datblygu a Gorfodi fod trefniadau'n cael eu gwneud ar hyn o bryd i aelodau dderbyn hyfforddiant ar y broses apelio a gellid helaethu'r hyfforddiant i gynnwys gorfodi.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

6. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 20 MEHEFIN 2024

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2024 fel cofnod cywir.

_____ _____

CHAIR **DATE**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf